Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 5ed Medi, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 GORFFENNAF | | | 3 - 6 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFOMRIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD | Cyng / Cllr Dafydd Meurig | Dilwyn Williams | 7 - 16 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFOMRIAD AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI | Cyng / Cllr. Ioan Thomas | Iwan Trefor Jones | 17 - 23 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD | Cyng / Cllr. Mair Rowlands | Dilwyn Williams | 24 - 36 |

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Craig ab Iago, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts a Gareth Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

Eitem 6: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Steve Barnard (Rheolwr Datblygu Sefydliad), Meinir Williams (Swyddog Gwella Gwasanaeth).
Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg Dros Dro), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)_
Eitem 8 a 9: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Ioan Thomas, Cyng. Gareth Griffiths a Cyng. Dilwyn Morgan.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROS OLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION O GYFARFOD A GYNHALWYD AR 27 MEHEFIN 2017

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 27 Mehefin, 2017, fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWELLA GWASANAETH A THREFN CWYNION Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad blynyddol am drefniadau Cwynion a Gwella Gwasnaeth y Cyngor (Trefn Gorfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod tri adroddiad cwynion i'w gweld yn yr atodiadau. Pwysleisiwyd fod rhesymau penodol dros gynhyrchu adroddiadau ar wahan, ond fod angen eu hystyried gyda'i gilydd i gael darlun cyflawn o sefyllfa cwynion y Cyngor.

Nodwyd fod niferoedd cwynion y Cyngor wedi lleihau, ac yn parhau i leihau gan fod y niferoedd wedi gostwng eto yn ystod chwarter cyntaf 2017/18. Pwysleisiwyd fod newid mewn diwylliant ar dull o ddelio a cwynion yn reswm dros y lleihad. Yn ychwanegol at hyn mae'r Tîm Cyd-lynnu Cwynion (Corfforaethol) yn gweithio gyda adrannau i geisio dod o hyd i ffordd o wella a dysgu o'r cwyn.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gwerth mewn cael tîm a sy'n gweithio yn annibynnol o unrhyw wasanaeth arall ac fod eu pwyslais ar ddatrys problemau. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r problemau yn cael ei amlygu ac mae newid mewn diwylliant yn yr adrannau yn cael ei adlewyrchu drwy'r gostyngiad mewn niferoedd cwynion.
- Diffyg ymateb yw'r rheswm amlycaf dros y cwynion; holwyd beth oedd yn cael ei wneud er mwyn i hyn wella? Nodwyd fod gwaith yn parhau i fynd rhagddi i wella'r perfformiad a thra bod adrannau yn newid yn raddol, bod lle i wella.
- Mae adroddiad o'r drefn gorfforaethol yn mynd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol pob chwarter, ac mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn gweithio mewn rôl asiant i'r trigolion ar un llaw, ond ar llaw arall yn cynorthwyo adrannau i ystyried a oes angen newid trefniadau i sicrhau nad yw'r un gwyn yn codi unwaith eto.
- Pwysleisiwyd yn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd fod cwynion yn cael eu datrys yn ystod Cam 1 sef ar lefel rheolwyr ac nad oes cwyn wedi ei chyfeirio at Cam 2 ers dros ddwy flynedd.

## 7. STRATEGAETH ARBEDION 2018/19 YMLAEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y drefn a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad er mwyn cynllunio ar gyfer arbedion pellach o 2019/20 ymlaen.

**TRAFODAETH**

Nodwyd gan ei bod yn dymor newydd o'r Cyngor ei bod yn bwysig sicrhau fod gennym drefn ar gyfer canfod unrhyw fwlch ariannol sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Pwysleisiwyd fod Cyngor Gwynedd wedi ei canmol gan fudiadau allan am eu gwaith yn blaen gynllunio. Bydd angen dechrau cynllunio arbedion 2018/19 ac ymlaen er na fydd yr adran gyllid yn ymwybodol o'r setliad tan yn hwyr ym mis Hydref.

Mae gwaith wedi cael ei wneud gan y Pennaeth Cyllid sydd wedi dod a 46,600 o senarios posibl, mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor i gynllunio ar sail gwybodaeth a tebygolrwydd. Pwysleisiwyd dros y 12 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynaeafu £62m o arbedion, ac oherwydd hyn, yn amlwg bydd y dasg o ddarganfod unrhyw arbedion yn debygol o fod yn llawer anoddach o hyn allan.

Yn ystod y cyfnod diwethaf gofynwyd i adrannau adnabod y cyfleoedd arbedion effeithlonrwydd ac aethpwyd ati i ddarganfod toriadau wedyn drwy adnabod y posibiliadau a gofyn i'r cyhoedd pa rai y byddent yn dymuno i'w cadw. Bu i'r holl gynlluniau droi mewn i gyfres o 10 bwced a gweithredwyd ar doriadau drwy dorri bwcedi 1 i 4. Un opsiwn yw ail adrodd y drefn a dibynnu ar fwcedi 5-10 os y bydd angen toriadau.

Trafodwyd opsiwn arall o ystyried amrediad o gynigion ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac effaith y cynigion hynny ar drigolion Gwynedd. Bydd amserlen bendant yn unol a'r dyhead i gael mwy o flaen graffu. Mae'r drefn yn cynnwys Pwyllgorau Craffu o'r cychwyn cyntaf, a byddwn yn cynnwys y cyhoedd a'r holl aelodau yn y broses o flaenoriaethu.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Ffafriwyd yr opsiwn newydd gan ei fod yn dymor newydd ac yn defnyddio'r drefn craffu o'r cychwyn. Un wers a gadarnhawyd gan ein trefniadau blaenorol oedd fod cynllunio ddigon pell o flaen llaw yn arwain yn gyffredinol at lai o ardrawiad at drigolion. Fodd bynnag gwnaed y pwynt gan ein bod nawr yn cychwyn o sylfaen lle mae'r arbedion hawsaf wedi eu cyflawni – ni fydd unrhyw arbedion i'r dyfodol yn ddi-boen.
- Nodwyd fod yr opsiwn newydd yn rhoi mwy o amser i gynllunio a pwysigrwydd cael trafodaeth eang.

## 8. CYLLIDEB REFENIW 2017/18 ADNABOD RISGIAU CYNNAR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2017/18 a cytuno dylai'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd y camau priodol yn ymwneud a materion o dan eu rheolaeth.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mae'r dyma'r adroddiad chwarterol cyntaf ar gyfer 2017/18. Eglurwyd fod amlinelliad fesul adran a sylwadau cryno ynglŷn a'r prif faterion ble mae gwahaniaethau sylweddol. Nodwyd fod tueddiadau gwariant ddim yn hollol glir eto gan ei bod yn fuan yn y flwyddyn.

Cadarnhawyd fod pob aelod cabinet wedi derbyn adroddiadau gan gyfrifwyr am eu maes penodol. Nodwyd fod yr adroddiad amlygu pump adran sydd â tueddiad gorwario, a pwyslleiswyd fod cyfrifoldeb ar bob adran ac aelod cabinet i reoli eu cyllideb.

Cyfeiriwyd at y rhagolwg o orwariant ym maes cludiant ysgolion a holwyd beth oedd y bwriad i ddygymod gyda hyn.

Nodwyd fod yr adran yn bwriadu adolygu pecynnau i weld a oedd yr angen a adnabuwyd ar un adeg yn parhau i fod yn briodol er mwyn gweld a ellid dod a'r gyllideb dan fwy o reolaeth. Bydd yr adran yn cymryd camau i ail edrych ar y sefyllfa.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod proses barhaus o fonitro cyllidebau, a nodwyd fod yr adolygiad cyfredol yn rybydd rhag blaen wedi ei roi er mwyn ceisio datrys unrhyw broblem

cyn iddo fynd yn rhy fawr.

## 9. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 ADOLYGIAD CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar arolygiad y chwarter cyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef cynnydd o:

- £3,332,000 mewn amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2016/17
- £3,253,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £55,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £956,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
- £428,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad chwarterol er mwyn cyflwyno'r rhaglen gyfalaf a cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Nodwyd eu bod yn rhagweld rhaglen gyfalaf werth £46,725,000 am y dair blynedd nesaf.

Nodwyd mai prif gasgliadau yw cynlluniau pendant i fuddsoddi £32.7m yn ystod y flwyddyn ac fod £5.8m wedi ei ddenu drwy grantiau penodol. Yn ychwanegol nodwyd fod £3.3m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2016/17 i 2014/18.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Er mai adroddiad technegol yw hwn, mae'n bwysig nodi fod yr arian yma yn gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion Gwynedd.
- Nodwyd fod cwymp sylweddol yn y rhaglen arfaethedig rhwng 2017/18 a 2019/20 gan nad oes sicrwydd pa grantiau fydd ar gael, a beth fydd effaith Brexit ar gyllidebau a grantiau y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.00 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 5ed o Fedi 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**1 CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tim Rheoli sydd hefyd yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda perfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PERFFORMIAD**

4.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Rwy'n croesawy'r ffaith fod graffiau yn cael eu defnyddio i adrodd ar nifer o'r mesurau erbyn hyn gan gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd ddealladwy a gweledol.

4.2 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portfffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

4.2.1 Erbyn hyn fe welir fod y data ar gyfer **Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle (Eiddo 4)** wedi sefydlogi gyda perfforiad yn 94% o'i gymharu a 90% yn y ddau gyfnod adrodd diwethaf ac 75% a 70% yn y ddau gyfnod cyntaf yn 2016/17. Rwyf wedi derbyn eglurhad pam nad yw'r perfformiad yn 100% ac wedi gofyn am restr o'r safleoedd sydd heb systemau yn eu lle ynghyd a'r hyn y bwriedir ei wneud er mwyn ymateb erbyn y cyfarfod herio perfformiad nesaf.

4.2.2 Nodir fod y dull o gasglu'r wybodaeth ar gyfer **Canran Bodlonrwydd Cwsmeriaid Uned Diogelwch a Gwaith Rhaglenedig (Eiddo5)** wedi newid gan olygu fod angen i'r cwsmeriaid roi rheswm os nad ydynt yn rhoi sgôr o 10. O ganlyniad, er bod y perfformiad yn ymddangos fel ei fod wedi dirywio mae mwy o sylwadau adeiladol wedi eu derbyn fydd yn galluogi'r Uned i roi camau yn eu lle i wella perfformiad.

4.2.3 Gwelir fod y **Nifer o apeliadau i'r beirniad anibynol sy'n cael eu caniatáu (Eiddo11)** wedi lleihau dros y 2 flynedd diwethaf ac nad oedd unrhyw apeliadau yn y cyfnod diwethaf na'r un blaenorol. Mae'r mesur wedi galluogi'r Uned Parcio i adnabod y rhesymau dros yr apeliadau ac i roi camau yn eu lle er mwyn ymateb iddynt ac adlewyrchir hyn yn y lleihad yn y niferoedd.

4.2.4 Mae'r Uned Stadau a Chyfleusterau wedi bod yn adolygu eu pwrpasau a'u mesurau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a byddaf yn adrodd arnynt yn fy adroddiad perfformiad nesaf.

4.3 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i drafeilio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.

4.3.1 Nodir y bu cynnydd yn y **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (Cludiant 2)** o 4 yn y cyfnod adrodd diwethaf i 8. Yn yr un modd bu cynnydd yn y **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (Cludiant 3)** o 8 i 19. Rwyf wedi herio perfformiad y mesurau hyn ac wedi derbyn eglurhad ynghylch y

materion oedd wedi codi ac yn hapus fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn ymateb.

4.3.2 Fodd bynnag, daeth yn amlwg fod y ffigyrau yn cynnwys ymholiadau yn ogystal a chwynion ac i'r dyfodol rwyf wedi gofyn iddynt adrodd ar y cwynion yn unig a sut y maent wedi ymateb iddynt.

4.3.3 Nodir fod gwaith yn mynd rhagddo yn yr Uned Gwaith Stryd a'r Uned Cefn Gwlad i ddatblygu mesurau addas a byddaf yn adrodd arnynt yn yr adroddiad perfformiad nesaf.

4.4 Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

4.4.1 Nodir bod **Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod (8 wythnos) (C4)** ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn 74% o'i gymharu a 90.12% ar gyfer yr un cynfod y flwyddyn diwethaf a'r cyfartaledd o 81.18% ar gyfer 2016/17.

4.4.2 Rwyf wedi herio y dirywiad yn y perfformiad ac wedi gofyn i'r Gwasanaeth amlygu'r rhesymau dros hynny yn y dyfodol gan roi sylw i'r materion sydd o fewn ein rheolaeth ni a sut yr ydym yn bwriadu ymateb. Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhagolygon yn addawol ac nad ydym yn debygol o weld gwelliant yn y perfformiad yn ystod y flwyddyn. Er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa yn dirywio ymhellach byddaf yn parhau i gadw golwg cyson ar y sefyllfa.

4.4.3 Gwelir bod perfformiad y mesur **Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu gafodd eu cymeradwyo (C5)** wedi gwella o 91.97% ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn diwethaf i 93.79%. Mae hefyd yn cymharu yn ffafriol gyda'r cyfartaledd ar gyfer 2016/17 o 91.53% ac mae lle i gredu fod y trefniadau newydd cyn cyflwyno cais sydd wedi eu cyflwyno wedi arwain at ansawdd uwch o geisiadau sydd yn ei dro wedi arwain at ganran uwch o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.

4.4.4 Nodir fod perfformiad y mesur **Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (C6)** yn ymddangos fel ei fod wedi gwella gan leihau i 92 diwrnod o'i gymharu a 142 diwrnod yn yr un cyfnod yn 2016/17. Yn yr un modd gwelir fod **Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn (C7)** wedi cynyddu i 82% o'i gymharu a 72.74% yn yr un cyfnod yn 2016/17.

4.4.5 Fodd bynnag, fel yr wyf wedi adrodd o'r blaen nid wyf yn sicr os yw'r mesurau hyn yn cyfleu'r hyn sy'n bwysig i'r dinesydd ac mae'r Gwasanaeth yn dal i ystyried sut y gellir dangos fod ein gweithgareddau gorfodaeth wedi diogelu pobl.

4.5 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei darparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

4.5.1 Yn y cyfnod dan sylw fe welir bod **Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen (G2)** yn 7 o'i gymharu a 9 ar gyfer yr un cyfnod yn 2016/17. I'r dyfodol rwyf wedi gofyn i'r graff ddangos cynnydd yn erbyn y disgwyliadau yn ogystal a pherfformiad hanesyddol gan egluro beth yw'r risgiau sydd ynghlwm hefo unrhyw llithriadau.

4.5.2 Nodir bod **Canran y troseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (G5)** yn 57% o'i gymharu a 34% ar gyfer yr un cyfnod yn 2016/17. Er fod hyn yn ymddangos yn welliant sylweddol rwy'n awyddus i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r rhesymau. O ganlyniad, rwyf wedi gofyn am ddadansoddiad pellach o'r achosion sydd heb eu datrys er mwyn deall y rhesymau a'r cyfnod amser y maent wedi bod yn eistedd.

4.5.3 Dengys y wybodaeth ynghylch **Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsi (G7)** fod y perfformiad yn gymharol sefydlog ar 10.24 diwrnod o'i gymharu a 11 yn 2016/17. Fodd bynnag, o edrych ar yr achosion mae'n amlwg fod rhai ceisiadau yn cymryd mwy nag y dylent ac o ganlyniad rwyf wedi gofyn am adroddiad ar ffurf graff cap i'r dyfodol er mwyn amlygu'r eithriadau a'r rhesymau dros unrhyw oedi.

5 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

5.1 Er fod rhywfaint o lithriad mae'r holl o gynlluniau arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu erbyn hyn.

5.2 Mae cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu cynlluniau 2017/18 gyda 98% o'r arbedion unai wedi eu gwireddu neu ar y trywydd cywir i gyflawni'n amserol.

**6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1 Dim i'w nodi.

**7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol, gyda'r Adran Amgylchedd yn gwneud cynnydd dderbyniol iawn tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion hynny y cyfeirir atynt yn rhan 5 yr adroddiad.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

* = Ffigwr is yn welliant


# Atodiad 2- Mesurau


| Cyfeirnod | Mesur | Perfformiad 15/16 | Perfformiad 16/17 | Perfformiad Ebrill – Mehefin 17/18 |
|---|---|---|---|---|
| **Trafnidiaeth Integredig** | | | | |
| Cludiant01 | Canran o siwrneiau cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon | 80 (ar gyfartaledd) | 92 | 96 |
| Cludiant02 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor | | 4 | 8 |
| Cludiant03 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur | | 8 | 19 |
| DFF1 | Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | 99 (ar gyfartaledd) | 100 (752/752) | 100 (519/519) |


Tud. 11

| Cyfeirnod | Mesur (diffiniad Cymraeg) | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | Perfformiad 16/17 | Perfformiad Ebrill – Mehefin 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | |
| G1 | Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. | 97 | 99 | 96 | 100 |
| G3 | Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn. | 100 | 100 | 43 | 0 |
| G5 | Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd | 88 | 86 | 89 | 57 |
| G7 | Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsis. | - | - | 8 | 10.24 |

* = Ffigwr is yn welliant








* = Ffigwr is yn welliant

| Cyfeirnod | Mesur (diffiniad Cymraeg) | Perfformiad 14/15 | Perfformiad 15/16 | Perfformiad 16/17 | Perfformiad Ebrill – Mehefin 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio ac Amgylchedd** | | | | | |
| C1 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | 88.68 | 89.13 | 90.00 |
| C2 | Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (nifer o ddyddiau) | - | 60.00 | 59.26 | 61 |
| C6 | Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (Dyddiau) | - | 164 | 122.6 | 92 |
| C5 | Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo | 93.28 | 90.33 | 90.85 | 93.75 |
| C8 | Pa mor sydyn mae'r achosion gorfodaeth sydd wedi eu datrys o fewn 12 wythnos ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (nifer o ddyddiau) | - | - | 23.93 | 23 |
| C9 | Cyrraedd cam allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd I Lywodraeth Cymru. | - | - | 33.20% | 100% |
| C10 | Canran o dai fforddiadwy ganiatawyd gyda cheisiadau cynllunio am dai. | - | - | - | 50% |

* = Ffigwr is yn welliant


## Mesurau'r Uned Eiddo Corfforaethol






Tud. 14

* = Ffigwr is yn welliant













* = Ffigwr is yn welliant




Tud. 16

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 5 Medi, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Datblygu'r Economi |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli Economi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Gan fod hwn yn bortffolio newydd i mi fel Aelod Cabinet, dros y misoedd diwethaf rwyf wedi ymgyfarwyddo fy hun gyda gwaith yr Adran Economi a Chymuned a dod i adnabod y prosiectau/ mesurau sydd mewn lle gan yr adran. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda'r adran dros y blynyddoedd nesaf.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. E2 Swyddi Gwerth Uchel ac o ansawdd

4.1.1. Pwrpas y prosiect yma yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd.

4.1.2 Mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb a lliwio cynnwys Bargen Sector Llywodraeth y DU ar gyfer y sector niwclear er mwyn uchafu'r budd i Safle Trawsfynydd. Trwy'r bargeinion sector yma, mae diwydiant yn cyflwyno awgrymiadau i'r Llywodraeth ar sut i ymateb i heriau o fewn sectorau penodol. Mae'r ymateb wedi'i anfon i'r Llywodraeth a chawn ddisgwyl ymateb.

4.1.3 Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cais am £10m- 25m o arian Ewrop i wella'r isadeiledd yng Nghanolfan Awyrofod Llanbedr. Yn ogystal, mae cais am £900,000 wedi'i wneud am arian Asiantaeth Dadgomisiynu Niwclear (NDA) ar gyfer y prosiect. Mae risgiau ynghlwm hefo'r prosiect gan fod natur y cais yn dibynnu ar sicrhau arian cyfatebol sylweddol iawn (tua £18m). Rydym yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran eu parodrwydd i gyfrannu at hyn. Byddaf mewn sefyllfa i ymhelaethu a chyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar y prosiect yma cyn diwedd mis Medi.

4.1.4 Ers mis Ebrill, **mae 76% o swyddi sydd wedi'u creu/ diogelu yn swyddi gwerth uchel (dros £26k**)- **Mesur ERh6**. Rwyf wedi gofyn i'r adran am ddadansoddiad pellach o'r ffigwr yma fel bod posibl gweld ym mha sectorau ac ardaloedd mae'r cynnydd. Rwyf yn awyddus i fynd o dan groen rhai o'r materion sy'n codi o'r dadansoddiad yn ystod y rownd nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad.

### 4.2. E5 Gwynedd Digidol

4.2.1 Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.

4.2.2 Mae'r prosiect yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru / BT i gyflawni prosiect Cyflymu Cymru yn y sir. Erbyn hyn mae **82% o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn bandeang cyflym yn y sir (Mesur ERh6),** gyda'r nifer sy'n tanysgrifio yn 42% sef yr uchaf yng Nghymru.

### 4.3. E6 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig

4.3.1 Pwrpas y prosiect yma yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Arloesi Gwynedd Wledig - LEADER Rhaglen Datblygu Wledig.

4.3.2 Mae 7 o brosiectau arloesol bychain wedi derbyn cymeradwyaeth o dan y gronfa ariannu Arloesi ers mis Ebrill. Mae'r prosiectau i gyd yn ddifyr ac yn amrywio o gynlluniau i dreialu'r defnydd o drydan yn y cartref, i brosiectau sy'n treialu dull newydd i gyflwyno iaith a diwylliant i ymwelwyr i Wynedd trwy berfformiadau artistig. Rwyf yn teimlo bod y sgôp i dreialu syniadau newydd o dan y gronfa yma yn rhywbeth cyffrous ac yn rhoi cyfle i'n cymunedau gwledig ystyried ystod o weithgareddau gwahanol. Byddaf yn rhannu astudiaethau achos i chi yn fy adroddiad nesaf.

4.3.3 Mae'r cynllun yma hefyd yn broses o ddatblygu cais ar gyfer darparu wifi cymunedol yn y Sir. Mae gennyf ddiddordeb gweld sut mae'r cais yma yn datblygu, yn enwedig ar ôl treial llwyddiannus yn Aberdaron.

**4.4. E7 Safle Treftadaeth y Byd**

4.4.1 Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol Cestyll Edward 1 yn Harlech a Chaernarfon yn ogystal â chyflwyno statws Safle Treftadaeth y Byd i dreftadaeth y diwydiant llechi.

4.4.2 Mae gwaith wedi cychwyn ar weithredu rhaglen o welliannau werth £15m i ddatblygu glannau Caernarfon yn ased ar gyfer y Sir gyfan. Mae'r gwaith yma yn cynnwys estyniad i'r Galeri, datblygiad y Cei llechi a gwelliannau gorsaf trên Eryri. Teimlaf fod hwn yn ddatblygiad cyffrous i'r ardal, ac rwyf yn bwriadu eich diweddaru yn rheolaidd ar y gwaith yma wrth iddo ddatblygu.

4.4.3 Teg i'w dweud bod y gwaith yn Harlech wedi bod yn fwy araf deg. Rwyf wedi gofyn i'r adran weithio'n agos gyda'r gymuned er mwyn ymateb i'r cyfleodd a'r anghenion sy'n codi yno. Mae'r prosiect wedi penodi ymgynghorwyr i lunio gweledigaeth a blaenoriaethu cyfleoedd yn yr ardal felly byddaf yn cadw llygaid ar y datblygiadau hyn.

4.4.4 O ran enwebiad ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, rydym wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth San Steffan yn dilyn gwerthusiad technegol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2017. Mae'r adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, ac maent yn ein hannog i barhau i ddatblygu'r enwebiad, gan anelu at fis Medi 2018. Ond, ceir argymhellion cryf i ni ystyried ffiniau'r enwebiad, yn enwedig o fewn cyd-destun y chwareli gweithredol. Bydd Grŵp Llywio'r prosiect yn cyfarfod diwedd mis Medi i drafod y camau nesaf.

**4.5. T7 Digwyddiadau Proffil uchel a Strategol**

4.5.1 Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.

4.5.2 Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio'n agos gyda nifer o ddigwyddiadau yn ddiweddar yn cynnwys Gŵyl Hi Jinx yng Nghaernarfon, sicrhau llwyfan i artistiaid ifanc yr ardal ar gyfer Gŵyl Rhif 6 a Red Bull Hardline.

4.5.3 Yn ogystal, mae trafodaethau wedi cymryd lle gyda 3 cymuned ynghyd a'r adran Addysg a gwasanaeth Hamdden i greu cyfleoedd i bobl ifanc yn ystod ymweliad Baton y Gymanwlad a Gwynedd ym mis Medi. Rwyf yn awyddus i sicrhau bod rhoi cyfleoedd i bobl ifanc elwa o ddigwyddiadau yn greiddiol i'r prosiect yma.

4.5.4 Roedd yn siomedig clywed bod cwmni Ground Event wedi gorfod canslo Gŵyl Eryri yn y Bala oherwydd diffyg gwerthiant tocynnau. Rwyf yn awyddus i gael sgwrs bellach hefo'r adran am hyn, i gael darganfod os byddai rhywbeth byddwn wedi gallu ei wneud yn wahanol.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1. Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r mesurau wrth drafod y prosiectau uchod.

5.2 Mae'r adran wedi bod yn gweithio ar nifer o fesuryddion newydd i gyd fynd gyda phwrpasau eu gwasanaethau, ac wedi bod yn ystyried mesurau mwy ystyrlon i drigolion Gwynedd. Mae'r mesurau wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1**. Er bod gwaith da wedi'i wneud i ystyried mesurau newydd, teimlaf fod gwaith pellach i'w wneud i ddadansoddi'r ffigyrau sy'n cael eu cyflwyno, a defnyddio'r wybodaeth hwnnw i siapio a newid trywydd y gwasanaethau a ddarperir.

5.3 Mae'n realiti bod llai o arian cyhoeddus ar gael, a gydag effaith Brexit, disgwylir bod grantiau i ddatblygu'r economi yn lleihau. Mae'n rhaid i ni felly gofio hynny wrth gymharu'r tueddiadau dros y blynyddoedd.

5.4 Mae'r **Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd** yn llunio a gweithredu cynlluniau a phrosiectau strategol sy'n mynd i weddnewid yr amgylchedd fusnes yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu llawer o'r prosiectau rwyf wedi manylu arnynt yn rhan 4. Un o'r prif ddeilliannau bydd y gwasanaeth yma yn y misoedd nesaf yw llunio Strategaeth Economaidd newydd i'r Sir.

5.5. Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. Un o'r prif faterion rwyf eisiau ei godi yma yw bod **canran o ofod diwydiannol a swyddfeydd y Cyngor sy'n llawn yn 91%** erbyn hyn. Golygai hyn nad oes lle i fusnesau egnïo yma bellach, gyda dim ond ychydig o unedau gwag ar gael ym Mentec a InTec. Mae hwn yn fater sydd angen rhoi sylw pellach iddo os am annog pobl, yn enwedig pobl ifanc i gychwyn busnes eu hunain. Rwy'n awyddus i'r adran ystyried defnyddio unedau eraill posibl er mwyn cael unedau egnïo busnes yng nghanol ein trefi/ pentrefi.

5.6 Teimlaf fod gwaith pellach i'w wneud gan yr Uned i ddal profiadau'r busnesau maent yn gweithio gyda hwy, ac efallai bod hwn yn rhywbeth dylid ei ystyried ar draws y Cyngor. Mae cael un pwynt cyswllt yn y Cyngor ar gyfer busnesau Gwynedd hefyd yn fater rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth ei ystyried.

5.7 Mae'r **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yn ceisio sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, harbyrau, marinas ac ar draethau Gwynedd. Mae'r uned yn gyfrifol am reoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 7 o draethau baner las, 4 o harbyrau a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 700 o gychod. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar gadarnhau briff ar gyfer comisiynu gwaith ar fodelau rheoli Hafan Pwllheli i'r dyfodol a trefnu gwaith carthu brys yn basin Doc Fictoria, Caernarfon.

5.8 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd o ymwelwyr. Mae'r Uned yn gyfrifol am wefan Eryri Mynyddoedd a'r Môr ac un o'r prif fesurau'r uned yw **nifer o ymwelwyr i**

**wefan Eryri Mynyddoedd ac Mor (ET1).** Ers mis Ebrill 2017, mae 316,901 wedi ymweld a'r wefan, a 41,000 wedi ymgysylltu trwy Facebook a Twitter. Mae'r ffigwr yma i fyny 10% o'i gymharu gyda adeg yma flwyddyn diwethaf.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Rwy'n falch o allu adrodd bod yr Adran wedi gwireddu'r oll o gynlluniau'r flwyddyn hon (2017-18) ar gyfer meysydd datblygu'r economi. Yn gyffredinol, mae'r adran hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r cynlluniau sy'n weddill ar gyfer 2018/19 a 2019/20 yn ogystal.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**ii. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Cadarnhaf gywirdeb agweddau ariannol o'r adroddiad. Mae'n galonogol fod rhan 6.1 o adroddiad yr Aelod Cabinet yn nodi bydd cynlluniau arbedion 2017/18 sy'n berthnasol i'r portffolio wedi'u gwireddu yn amserol."

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1 Mesurau Adran Economi & Chymuned (Datblygu'r Economi)**

## MESURAU'R AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI (hyd at Gorffennaf 2017)

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Diweddaraf(Dat a cronnus hyd at Gorffennaf 2017) |
|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth, March. a Gof. Cwsmer | **ET3**<br>Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,814,867 | £5,928,034 | £6,764,860 | Dim wedi adrodd |
| Twristiaeth, March. A Gofal Cwsmer | **ET1**<br>Nifer ymwelwyr safle gwe Eryri Mynyddoedd a Mor | - | 626,498 | 815,675 | 316,901 |
| Adran Econ. a Chymuned | **ERh7 (NEWYDD)**<br>Canran o'r swyddi wedi eu creu/ diogelu yn swyddi gwerth uchel | - | - | - | 76% |
| Adran Econ. a Chymuned | **E1 (NEWYDD)**<br>Nifer o fusnesau yn derbyn cymorth | - | - | - | 38 |
| Adran Econ. a Chymuned | **E3 (NEWYDD)**<br>Nifer o swyddi wedi eu creu gan fentrau yn derbyn cefnogaeth | - | - | - | 6.5 |
| Adran Econ. a Chymuned | **E4 (NEWYDD)**<br>Nifer o swyddi wedi eu diogelu gan fentrau yn | - | - | - | 21 |

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Diweddaraf(Data cronnus hyd at Gorffennaf 2017) |
|---|---|---|---|---|---|
| | derbyn cefnogaeth | | | | |
| Strategaeth a Datblygu | **E2**<br>Buddsoddiad i'r Sir drwy brosiectau | £1,255,000 | £3,241,616 | £6,622,171 | £3,130,707 |
| Strategaeth a Datblygu | **ERh6 (NEWYDD)**<br>Canran yr eiddo yng Ngwynedd yn gallu derbyn bandeang cyflym | - | - | - | 82% |
| Strategaeth a Datbltgu | **ERh5 (NEWYDD)**<br>Nifer o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwledig | - | - | - | 40 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | **EM1 (NEWYDD)**<br>Nifer o draethau wedi derbyn gwobr ansawdd | - | - | - | 13 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 5ed o Fedi 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mair Rowlands |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau'r Cynllun Strategol a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofyn i'r Aelodau Cabinet perthnasol i herio cynnydd gwaith yr Awdit Iaith yn Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd ac Adran Economi a Chymuned (Hamdden) fel yr amlinellir yn 4.4.6.

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4 PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

***Tlodi, Economi, Tai***

### 4.1 T2 Cadw'r Budd yn Lleol

4.1.1 Mae'r gwaith o sefydlu'r timau categori wedi parhau yn ystod y misoedd diwethaf ac ar hyn o bryd maent yn y broses o sefydlu darlun o'r holl feysydd y mae'r Cyngor yn caffael ynddynt gyda'r bwriad o gyflwyno rhaglen o gynlluniau arbed yn fuan. Yn ogystal, mae gwaith wedi parhau i godi ymwybyddiaeth cwmnïau lleol o gyfleoedd i dendro, cynnig cefnogaeth a lleihau rhwystrau.

4.1.2 Mae'r gwaith hyn yn rhan o waith craidd yr Uned Caffael erbyn hyn ac felly ni fyddwn yn adrodd arno fel prosiect ar wahân i'r dyfodol.

***Y Gymraeg***

### 4.2 I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg

4.2.1 Mae'r prosiect yn dal i fynd yn ei flaen o fewn cymunedau Bangor, Dolgellau a Phorthmadog/Pwllheli a cheir crynodeb o'r prif weithgareddau isod. Fe'ch atgoffir fod y rhaglen waith ar gyfer y prosiect wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith trwy Hunaniaith.

**4.2.2 Bangor**

- Ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn y gwaith dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i absenoldeb salwch Swyddog Datblygu Popdy (Canolfan Menter Iaith Bangor).

**4.2.3 Dolgellau**

- Cynhaliwyd Gig y Gwylia' gan Fudiad Adloniant Dolgellau ar y 23ain o Fehefin gyda 92 o bobl ifanc o dan 18 oed yn mynychu. Yn ogystal, mae holiadur wedi ei lenwi gan ddisgyblion Ysgol y Gader ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg a gweithgareddau cymdeithasol gyda'r bwriad o gydweithio hefo grwpiau sy'n trefnu gweithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r iaith ymysg yr ifanc.
- Parhawyd gyda gweithgareddau ar gyfer cymhathu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda Noson Cawl a Chanu ddiwedd mis Ebrill a fynychwyd gan 23 o unigolion gan gynnwys 9 dysgwr.

**4.2.4 Porthmadog/Pwllheli**

- Mae hunaniaith wedi bod yn cydweithio ar brosiect hefo 60 o fusnesau yn y sector twristiaeth yn yr ardal er mwyn mapio eu defnydd o'r Gymraeg gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith.

4.3 **I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

4.3.1 Yn ystod mis Ebrill cynhaliwyd cyfarfod o uwch swyddogion a swyddogion iaith y cyrff cyhoeddus ble cafwyd trafodaeth agored a gonest ynghylch yr uchelgais ar gyfer y prosiect hwn. Daeth yn amlwg fod peth gwahaniaeth barn yn niwylliant rhai o'r cyrff, ac o ran eu dehongliad ynghylch cyfrifoldebau o ran darpariaeth gwasanaethau dwyieithog.

4.3.2 Fel cam cychwynnol cytunwyd i gydweithio hefo Prifysgol Bangor i lunio pecyn hyfforddi a datblygu i alluogi staff i wneud mwy i annog defnydd o'r iaith wrth ymdrin â chwsmeriaid.

4.3.3 Gydag ymddeoliad y swyddog o fewn y Cyngor sydd wedi bod yn arwain y prosiect ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rwyf wedi gofyn am gadarnhad ynghylch arweinyddiaeth y prosiect i'r dyfodol.

4.4 **I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd**

4.4.1 Yn ystod y misoedd diwethaf mae gwaith y prosiect wedi canolbwyntio ar 2 Adran sef Ymgynghoriaeth Gwynedd ac Economi a Chymuned.

4.4.2 Erbyn diwedd mis Mehefin roedd sesiynau ymwybyddiaeth iaith wedi eu cynnal gyda mwyafrif staff Ymgynghoriaeth Gwynedd gydag adborth eisoes yn awgrymu newid agwedd, mwy o ystyriaeth ynghylch defnydd o'r iaith ac arweiniad clir gan reolwyr o safbwynt y Gymraeg. Yn ogystal mae 6 Pencampwr Iaith wedi eu henwebu fydd yn herio agweddau negyddol ac adnabod unigolion sydd angen cefnogaeth.

4.4.3 Bu'r cynnydd rhywfaint yn arafach yn yr Adran Economi a Chymuned (Hamdden). Tra bod sesiynau ymwybyddiaeth iaith wedi eu cynnal gyda staff 3 Canolfan Hamdden (o'r 4 oedd wedi ei blaenoriaethu) nid oedd modd cyrraedd yr holl staff targed o ganlyniad i batrymau gwaith staff y Canolfannau Hamdden.

4.4.4 Er hynny, mae anghenion eisoes wedi eu hadnabod mewn dwy Ganolfan Hamdden (Tywyn a Bangor) i ddatblygu sgiliau llafar a bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal yn fuan. Yn ogystal, bwriedir cynnal sesiwn hyfforddiant er mwyn cefnogi staff i fod yn fwy hyderus i gynnal gweithgareddau yn ddwyieithog.

4.4.5 Byddwn yn edrych i symud y gwaith yn ei flaen o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Amgylchedd yn y dyfodol hefyd a byddaf yn adrodd ar hynny yn yr adroddiad perfformiad nesaf.

4.4.6 Er mwyn sicrhau perchnogaeth o fewn yr Adrannau rwy'n awgrymu y dylai'r Aelodau Cabinet perthnasol herio cynnydd y prosiect yn y cyfarfodydd herio perfformiad. Yn dilyn hyn byddai trosolwg o gynnydd y prosiect yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod herio perfformiad fy maes i er mwyn fy ngalluogi i sicrhau fod cynnydd yn unol â'r disgwyl. Byddaf yn parhau i adrodd ar gynnydd y prosiect fel rhan o fy adroddiadau perfformiad.

### *Cyflawni'r Cynllun*

4.5 **FfG1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**

4.5.1 Mae'r adolygiad o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi cyrraedd y cam arbrofi ac yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio yn ardal Meirionnydd gyda'r bwriad o fabwysiadu'r rhai sy'n gweithio orau ar draws y Sir. Gwelwyd gwelliannau eisoes megis newidiadau yn y drefn o wagu cwteri sydd wedi arwain at leihad yn yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r gwaith a defnyddio tanwydd rhatach mewn peiriannau graeanu.

4.5.2 Yn ogystal, mae dau adolygiad pellach newydd gychwyn yn yr Adain Gofrestru o fewn Adran Amgylchedd a'r Adain Incwm a Lles o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd adolygiadau pellach yn cymryd lle o fewn y Gwasanaeth Morwrol a Hamdden dros y misoedd nesaf ac yn y Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu cyn diwedd 2017/18. Byddaf yn eich diweddaru ar eu datblygiad yn fy adroddiadau yn y dyfodol.

4.5.3 Erbyn hyn rydym wedi dechrau sesiynau hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr y Cyngor. Bydd y sesiynau hyn yn golygu y bydd holl reolwyr y Cyngor wedi eu trwytho yn egwyddorion Ffordd Gwynedd gan sicrhau fod dealltwriaeth ganddynt o'r cysyniadau perthnasol a beth y gallant ei wneud er mwyn lledaenu'r ffordd o feddwl o fewn eu hunedau. Y bwriad yw y bydd yr holl Reolwyr wedi dilyn y cwrs erbyn diwedd 2017/18.

4.6 **FfG2 Rhaglen datblygu arweinwyr**

4.6.1 Fel y byddwch yn ymwybodol cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol o Aelodau'r Cabinet yn ystod mis Gorffennaf er mwyn trafod eu hanghenion datblygu. O ganlyniad i'r drafodaeth hyn mae nifer o ffrydiau gwaith wedi eu hadnabod fydd yn ffurfio rhaglen ddatblygu ddiwygiedig ar gyfer yr Aelodau Cabinet.

4.6.2 Rwy'n ffyddiog y bydd y rhaglen hon yn gosod sylfaen gadarn ond fel cam pellach rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect ystyried sut y gallwn edrych ar ddatblygu arweinyddiaeth ar y cyd rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

4.6.3 Mae gwaith i ddatblygu diffiniad o 'arweinyddiaeth' yn parhau i fynd yn ei flaen. Rwyf wedi awgrymu ehangu aelodaeth y Grŵp Prosiect i gynnwys unigolion sy'n deall egwyddorion Ffordd Gwynedd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-blethu cyn ymgynghori ymhellach ar y diffiniad.

4.7 **FfG3 Ymgysylltu**

4.7.1 Yn ystod y misoedd diwethaf mae gwaith wedi mynd rhagddo i recriwtio pobl ifanc i fod yn aelodau ar-lein o Banel Pobl Ifanc Gwynedd ac erbyn hyn mae 300 o aelodau. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ymchwilio i'r dulliau a thechnegau mwyaf effeithiol ar gyfer ymgysylltu hefo plant a phobl ifanc.

4.7.2 Gwelwyd ymgyrch hefyd i wella ein trefniadau ymgysylltu hefo'r Panel Trigolion trwy recriwtio aelodau newydd sy'n fodlon darparu adborth drwy ddulliau electroneg yn hytrach na dros y ffôn. Erbyn hyn mae dros 300 (oddeutu 25%) o'r oedolion sy'n aelodau o'r Panel yn darparu adborth drwy ddulliau electroneg.

4.8 **FfG4 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

4.8.1 Gwelwyd cynnydd yn y nifer o wasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd trwy hunanwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys archebu biniau gwastraff, bocsys glas a bagiau bin ynghyd a chyflwyno ymholiad neu gŵyn am y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.

4.8.2 Yn ogystal, mae datblygiadau yn y system a ddefnyddir wedi galluogi'r cwsmer a'r Cyngor i ddiweddaru statws unrhyw gais gan ddefnyddio'r cyfrif hunanwasanaeth. Fe ddylai hyn leihau'r angen i gysylltu eto er mwyn derbyn diweddariad ar statws ceisiadau.

4.8.3 Ar hyn o bryd mae angen sefydlu cyfrif ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth ond rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect ystyried sut y gellir cyfarch anghenion pobl sy'n gwneud cais unwaith heb orfod sefydlu cyfrif.

4.8.4 Byddwn yn cyflwyno'r achos busnes i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth ar ddechrau mis Hydref.

***Cynllunio Ariannol***

4.9 **CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**

4.9.1 Mae'r Strategaeth Ariannol bresennol yn gofyn am arbedion effeithlonrwydd pellach o £1.082m eleni ac mae gwerth £1.084m wedi ei gymeradwyo. Yn ogystal mae gwerth £5.2m o gynlluniau pellach neu rai sy'n cael eu datblygu wedi eu hadnabod ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21.

4.9.2 Gyda'r tafluniad mwyaf optimistaidd nid yw hyn yn debygol o fod yn ddigonol o 2019/20 ymlaen ac felly mae cyfundrefn ar gyfer canfod mwy o arbedion wedi eu llunio a'i chymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 18fed o Orffennaf.

4.9.3 Mae'r gwaith o baratoi achos busnes ar gyfer **Model Amgen Hamdden** yn dirwyn i ben a bydd adroddiad ar sefydlu cwmni o dan reolaeth y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref.

5 **PERFFORMIAD**

5.1 Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.*** Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith fewn yr **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ynghyd a'r **Gwasanaeth Cyfreithiol**.

5.2 Mae'r **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** yn gyfrifol am gynghori ar sut i warchod iechyd diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd a monitro ansawdd. Er bod perfformiad y mesurau yn ymddangos yn gymharol gyda chyfnodau blaenorol fe amlygwyd y ffaith y gallai hyn roi argraff gamarweiniol o'r sefyllfa yn y cyfarfod herio perfformiad.

5.3 O ganlyniad, nid wyf yn gwbl hyderus fod y model busnes yr ydym wedi dewis ei ddilyn wedi ei wreiddio o fewn yr Adrannau. Rwy'n bwriadu cynnal trafodaethau pellach ynghylch y sefyllfa hefo'r Prif Weithredwr a Phennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn fuan a byddaf yn eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau.

5.4 Mae **Uned Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth.

5.5 Yn dilyn neilltuo adnodd ychwanegol i Galw Gwynedd er mwyn ateb galwadau ffôn yn ôl ym mis Ebrill rydym wedi gweld gwelliant yn y mesurau cysylltiedig. Gwelwyd lleihad yn y **Cyfartaledd ateb ffôn Galw Gwynedd** o 0.58 munud yn 2016/17 i 0.42 munud yn y cyfnod cyntaf yn 2017/18 gyda **Canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Galw Gwynedd** wedi lleihau o 11.30% yn 2016/17 i 5.39%.

5.6 Trafodwyd y mesur **Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy galw Gwynedd** a'r ffaith fod 28% wedi rhoi sgôr o lai na 10. Tra'r rwyf yn hapus fod camau wedi eu rhoi yn eu lle gan yr Uned i ymateb i'r pwyntiau oedd yn berthnasol iddynt nodir fod nifer o'r ymatebwyr wedi datgan anhapusrwydd ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan Adrannau eraill.

5.7 Deallaf fod unrhyw sylwadau yn cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau perthnasol ond nid yw'n eglur i mi sut mae'r wybodaeth yn cael ei ddal o fewn eu mesurau perfformiad ar fodlonrwydd cwsmeriaid. Byddaf yn ystyried hyn wrth graffu adroddiadau perfformiad fy nghyd aelodau ar y Cabinet.

*5.8* Mae'r **Uned Gaffael** yn galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian a chadw'r budd yn lleol yn y maes caffael. Gwelir fod rhywfaint o gynnydd yn y mesurau sy'n mesur gwariant lleol dros y 2 flynedd diwethaf gyda'r ***Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau sydd a'i bencadlys neu gangen yng Ngwynedd a gwariant lleol drwy is-gontractau*** wedi cynyddu i 47% yn chwarter 1 2017/18 o'i gymharu â 44% yn yr un chwarter yn 2016/17 a 40% yn 2015/16.

5.9 Fodd bynnag, wrth drafod y mesur daeth yn amlwg fod gwerth y gwariant yn lleol yn lleihau o ganlyniad i leihad yn y cynlluniau cyfalaf. Er mwyn sicrhau ein bod yn adrodd ar y gwir sefyllfa rwyf wedi awgrymu ein bod yn adrodd ar refeniw a cyfalaf ar wahân yn y dyfodol.

5.10 Yn dilyn herio perfformiad yr **Uned Ymchwil a Dadansoddeg** rwy'n hapus gyda chynnydd y gwaith. Yn ddiweddar mae'r Uned wedi cwblhau gwaith manwl i edrych ar ragamcanion poblogaeth ar gyfer y gwahanol ardaloedd llesiant yng Ngwynedd a all fod yn adnodd pwysig wrth gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol. Byddaf yn adrodd ar y gwaith i Aelodau'r Cabinet yn ystod mis Medi.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

6.1 Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2017/18 wedi eu gwireddu a ni ragwelir problem mewn gwireddu'r ddau gynllun sydd wedi eu hadnabod ar gyfer 2018/19.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o ran priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Mae rhan 4.9 o'r adroddiad yn ategu adroddiad blaenorol yr Aelod Cabinet dros Gyllid ar 18 Gorffennaf am yr angen i sefydlu cyfundrefn i ddarganfod arbedion pellach. Mae rhan 6 o'r adroddiad yn ymdrin â chynlluniau arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, ac gallaf gadarnhau fod y sylwadau hyn yn adlewyrchiad teg ac i'w croesawu.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---


**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

Atodiad 1


**Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol**


| Mesur- diffiniad | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| **Caffael** | | | | |
| 1. Canran o darged arbedion caffael yr achos busnes rheolaeth categori sydd wedi cwblhau (Targed o £2.3m 2014/15 – 2018/19) | - | - | 43% (£1m/£2.3m) | **44% (£1.01m/ £2.3m)** |




| Mesur- diffiniad | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| **Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** | | | | |
| 1. Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Galw Gwynedd | - | - | - | 28% |
| 2. Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy fynychu Siop Gwynedd. | - | - | - | 11% |
| 3. Nifer a nodwyd fod yr amser disgwyl cyn derbyn gwasanaeth yn Siop Gwynedd yn dderbyniol/annerbyniol. | - | - | - | 3 |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion lle'r oedd cwsmeriaid yn anfodlon neu'r mater wedi ei basio ymlaen i'r Gwasanaeth perthnasol. | | | | |

## Atodiad 1








| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cofrestru** | | | | |
| 1. Canran yr holiaduron bodlonrwydd sy'n graddio'r gwasanaeth Cofrestru Genedigaeth, Marwolaeth a Phriodasau yn dda iawn | - | - | - | 86.6 |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch pam nad yw'r gwasanaeth yn dda iawn. | | | | |
| **Iechyd, Diogelwch a Llesiant** | | | | |
| 1. Nifer o ddigwyddiadau RIDDOR (chwarter 1) | 13 | 16 | 5 | 14<br><br>(1/4/17-30/6/17) |
| 2. Nifer o archwiliadau I&D (ac yn deillio o hynny, nifer yr achosion diffyg cydymffurfiaeth) | - | - | - | Nifer safleoedd Risg isel: 13<br><br>Risg cymedrol: 6<br><br>R risg uchel: 1<br><br>Risg uchel eithriadol: |
| 3. Holiaduron bodlonrwydd (sgôr allan o 10) | - | - | - | 8.1 |
| 4. Nifer o ymyraethau Iechyd Galwedigaethol sydd wedi eu targedu ar sail ffigyrau absenoldebau (maes o law beth yw effaith yr ymyraethau hynny) | - | - | - | - |
| 5. Nifer o ymyraethau AGID a nifer o ddiffygion materol | - | - | - | - |


# Atodiad 1

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfieithu** | | | | |
| 1. Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ysgrifenedig | - | - | 100% | 100% |
| 2. Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ar y pryd | - | - | 100% | - |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | | | |

**Mesur 1** Nifer a chanran y defnyddwyr sy'n adrodd eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r wefan (01 Ebrill 2017 – 30 Mehefin 2017) (Sgôr allan o 5)





**Mesur 2** Sut rydym wedi ymateb i'r sylwadau a nodwyd (01 Ebrill 2017 – 30 Mehefin 2017)



## Atodiad 1

**Mesur:** Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sgôr allan o 10 a dderbynnir ar ddiwedd cynllun penodol mewn ymateb i'r cwestiwn
*"I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda Phobl Gwynedd?"*







| **Mesur- diffiniad** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2016-17** |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu'r Gyfundrefn** | | | | |
| 1. Nifer o gwynion ffurfiol dderbyniwyd o dan Drefn Gorfforaethol y Cyngor | - | 28 | 24 | 12 |
| **Rheoli Gwybodaeth** | | | | |
| **1. Holiadur (rheoli cofnodion/diogelu data/rhyddid gwybodaeth/canolfan gofnodion)**<br>*'Ydych chi wedi cael y gwasanaeth oedd arnoch ei eisiau?'* | - | - | - | 100% |


## Atodiad 1

**2. Nifer digwyddiadau gwybodaeth**




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. Perfformiad ateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth- canran atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith | 91% | 86% | 87% | 91% |
| **Dysgu a Datblygu** | | | | |
| 1. "Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd?" (Sgôr /10)<br>"Beth fysai'n gwneud 10/10?" | - | - | 8.3 | 8.3 |
| 2. "Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn helpu eich staff chi i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd?" (Sgôr /10)<br>"Beth fysai'n gwneud 10/10?" | - | - | 8.0 | 8.6 |
| 3. "Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn i chi allu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?" (Sgôr /10)<br>"Beth fysai'n gwneud 10/10?" | - | - | 9.8 | 9.4 |

## Atodiad 1

| **Adnoddau Dynol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Salwch Ebrill i Mehefin 2017/18 – cymharu â'r un cyfnod ar gyfer blynyddoedd blaenorol | | | | |
|  | | | | |
| **2.** Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio at sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o benderfyniadau sy'n mynd yn groes i benderfyniadau gwreiddiol y cyflogwr | - | - | - | - |
| 3. Barn rheolwyr ar safon y Gwasanaeth sy'n cael ei roi | - | - | - | - |
| **Sylwadau**<br>3. Adborth wedi ei dderbyn gan reolwyr unigol sydd wedi rhoi pwyntiau gweithredu ymarferol i'r tîm weithredu arnynt. | | | | |



### Mesurau Gwasanaeth Cyfreithiol

| Mesur- diffiniad | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Canran ymatebion holiaduron achos yn sgorio'r gwasanaeth ar 9 – 10 /10: | - | - | 96% | 96% |